# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 07 Ionawr 2019 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 08 Ionawr 2019 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 16 Ionawr 2019 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet dros Addysg

---

**PWNC**

Caniatâd i gyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11.

---

**PENDERFYNIAD –**

i. Cymeradwyo'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11 fel y gellir derbyn plant i ddosbarth meithrin yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed, gan weithredu'r newid ar 1af medi 2019

ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr adroddiad swyddog atodedig

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –

Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Aelod Lleol
Cynhaliwyd Ymgynghoriad Statudol a derbyniwyd ymatebion gan

- Rieni

---

- Cynrychiolydd o'r Cylch Meithrin
- NASUWT
- Estyn
- Disgyblion Llanbedr

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodol

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Gareth Thomas |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Owen Owens<br>Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 07/01/2019 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**1. Pwnc :**

Caniatâd i gyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11.

**2. Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

(i) Cymeradwyo'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11 fel y gellir derbyn plant i ddosbarth meithrin yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed, gan weithredu'r newid ar 1af Medi 2019

(ii) Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013.

**3. Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Yn dilyn cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig uchod mae angen i'r awdurdod benderfynu os yw am fwrw 'mlaen â'r cynnig. Os am wneud hynny bydd angen cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013.

**4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y penderfyniad**

**4.1** Mae bron pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn derbyn plant i ddosbarth meithrin ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Ar hyn o bryd mae ystod oedran Ysgol Llanbedr yn 4-11. Cyflwynodd Corff Llywodraethol Ysgol Llanbedr

gais i Adran Addysg Gyngor Gwynedd i gael newid yr ystod oedran i 3-11 fel eu bod hwythau hefyd yn gallu derbyn plant yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Yn dilyn rhoi ystyriaeth i'r cais cytunodd yr Adran Addysg i gynnal trefn statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11.

**4.2** Cyhoeddwyd taflen penderfyniad ar 3 Awst 2018, yn datgan penderfyniad Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11 o Fedi 2019 ymlaen.

Lluniwyd dogfen ymgynghori statudol a chynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 17 Medi – 29 Hydref 2018, yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013.

**4.3** Derbyniwyd ymatebion i'r ymgynghoriad gan y canlynol:

- 2 ymateb i'r ymgynghoriad statudol gan rieni
- 1 gan gynrychiolydd o'r Cylch Meithrin
- 21 gan ddisgyblion Ysgol Llanbedr
- NASUWT
- Estyn

**4.4** Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013, yn dilyn cynnal yr ymgynghoriad, lluniwyd adroddiad arno gan roi'r adroddiad ar wefan y Cyngor ar 30 Tachwedd 2018 a rhannu linc neu rannu copïau caled gyda buddiolwyr perthnasol.

**4.5** Ceir y prif sylwadau rhieni, y cylch meithrin a NASUWT ac ymateb y Cyngor iddynt yn y tabl isod:

| Sylwadau | | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| **1** | **Cefnogaeth** | |
| 1.1 | Rydym yn edrych ymlaen at y newidiadau newid oedran Ysgol Llanbedr. | |
| **2.** | **Effaith ar y Cylch Meithrin** | |
| 2.1 | Rwy'n falch iawn o wybod na fyddwn ni yn y cylch yn colli ein harian ac rwy'n falch y bydd rhieni yn gallu dewis os ydynt am anfon eu plant i'r ysgol neu'r cylch am y prynhawn. Ni fydd y Cylch yn gwrthwynebu'r cynnig. | Roedd pob Cylch yn derbyn taliad craidd o £2,027.06 y tymor o Daliad Addysg Feithrin Cyngor Gwynedd yn 2017/18 ac os oedd mwy na 8 plentyn yn mynychu 80 awr neu fwy yna roedd taliad ychwanegol. Yn 2017/18 roedd |

| | | |
|---|---|---|
| | | hyn yn £52 yr awr wythnosol dros 80 awr, yn ychwanegol pob tymor.<br><br>Oherwydd roedd niferoedd plant yn Cylch Llanbedr blwyddyn diwethaf yn llai na 8, roedd y Cylch yn derbyn y swm craidd o £2,027.06 y tymor yn unig. Golygai hyn pe byddai nifer y plant wedi gostwng mi fyddai'r Cylch yn dal i dderbyn yr un swm. Felly, os fydd sefyllfa tebyg yn bodoli yn dilyn newid ystod oedran Ysgol Llanbedr a bod nifer plant sy'n mynychu'r Cylch yn lleihau, dan yr amgylchiadau presennol, ni fydda'r Cylch yn colli unrhyw gyllid o'r Cyngor.<br><br>Mae gan rieni yr hawl i ddewis os ydynt am ddanfon eu plentyn i ysgol yn 3 oed, neu ddim. Maen nhw hefyd yn gallu danfon eu plant i'r ysgol a Cylch. |
| 2.2 | Nid oes gan yr Undeb wrthwynebiad i'r bwriad hwn mewn egwyddor. Mae'n amlwg bydd effaith ar y Cylch Meithrin lleol, ond gan ei bod drws nesaf i'r ysgol bydd modd cydweithio mewn ffordd fydd yn sicrhau bodolaeth y Cylch. Er enghraifft fe all y disgyblion Meithrin fynd draw at y Cylch ar ddiwedd eu 2 awr o ysgol i gael Clwb Cinio yn y Cylch. Os oes rhieni cymwys i dderbyn Gofal 30 Awr yna fe all y Cylch hawlio'r oriau gweddilliol gan gynnig oriau gofal ar ôl y sesiwn ysgol. | Fel mae'r Undeb yn ei nodi, mae Cylch Meithrin Llanbedr yn cwrdd drws nesaf i safle'r ysgol, yn Neuadd Bentref Llanbedr, felly mi fyddai trosglwyddo plant o'r Cylch i'r ysgol, neu ysgol i'r Cylch, yn hwylus iawn.<br><br>Mi fydd yr ysgol hefyd yn cymryd i ystyriaeth pryd mae'r Cylch yn cwrdd er mwyn sicrhau'r opsiwn i blant allu mynychu'r Cylch yn ogystal â'r ysgol os dymunai eu rhieni. |
| **3** | **Effaith ar ystod oedran dosbarthiadau** | |
| 3.1 | Nid oes dosbarthiadau "sbâr" yn yr ysgol ar gyfer y plant ieuengaf. Er mwyn eu hychwanegu at oedran a galluoedd amrywiol Dosbarth 1, rwy'n teimlo y byddai hynny'n niweidiol i'r plant yn ystod blynyddoedd hŷn y grŵp hwnnw ac yn ymestyn athrawon hyd yn oed ymhellach.<br><br>Rwyf hefyd yn teimlo y byddai'n effeithiol cau'r cylch drws nesaf | Yn 2017/18 roedd Ysgol Llanbedr yn rhoi addysg i 20 o blant blwyddyn derbyn i flwyddyn 2 mewn un dosbarth. Yn ôl ein rhagamcanion rydym yn rhagweld bydd oddeutu 6 plentyn oed meithrin yn ymuno a'r ysgol drwy gyflwyno dosbarth meithrin. Yn ôl ein rhagamcanion ar gyfer Medi 2019 rydym yn amcangyfrif y bydd oddeutu 22 o blant yn nosbarth meithrin i flwyddyn 2. |

| | | |
|---|---|---|
| | fydd yn drist iawn ac yn niweidiol i gymuned y pentref. Ar hyn o bryd mae'r cylch yn derbyn plant o 2½ mlwydd oed.<br><br>(Efallai mai cyfaddawd fyddai mynd yn ôl i'r ffordd hen ffasiwn (neu efallai mai Lloegr yn unig dydw i ddim yn siŵr) o ganiatáu derbyniad mis Ionawr yn ogystal â Medi ar gyfer plant hŷn + mwy disglair y cylch.) | Gan fod y rhagolygon cynnydd mewn niferoedd yn fach a bod trefniadau cadarn mewn lle yn y Cyfnod Sylfaen ni ragwelir bydd cyflwyno dosbarth meithrin yn yr ysgol yn niweidiol i safonau'r ysgol.<br><br>Mi fydd cyflwyno dosbarth meithrin yn yr ysgol yn golygu bydd plant yn cael 10 awr o addysg yn yr ysgol o'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Mae'r ysgol wedi ystyried yr effaith posib ar y Cylch Meithrin a'n bwriadu cynnal y sesiynau hyn yn y prynhawn er mwyn caniatáu'r cyfle i'r plant fynd i'r Cylch yn y bore.<br><br>Polisi Mynediad Gwynedd yw caniatáu mynediad i ddosbarth meithrin ysgol i ddisgyblion yn y mis Medi yn dilyn eu 3ydd pen-blwydd. Cylchoedd meithrin sydd yn darparu'r addysg feithrin statudol i'r disgyblion rheiny sydd â hawl i dderbyn addysg feithrin yn y tymor yn dilyn eu 3ydd pen-blwydd ble mae hynny'n golygu cychwyn yr addysg ym mis Ionawr neu ar ôl y Pasg. Mae dilyn y polisi hwn o gymorth i sicrhau niferoedd plant mewn cylchoedd meithrin. |

Gellir gweld copïau o'r ymatebion llawn yn **atodiad 1** - mae'r wybodaeth bersonol ar rai o'r ymatebion wedi eu duo er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 2018.

### 4.6 Ymateb Estyn

**4.6.1** Derbyniwyd sylwadau gan Estyn fel rhan o'r ymgynghoriad. Gellir gweld eu hymateb llawn yn **atodiad 2**.

**4.6.2** Gweler ymatebion y Cyngor i sylwadau a gyflwynwyd gan Estyn yn y tabl isod:

| **Sylwadau** | | **Ymateb Cyngor Gwynedd** |
|---|---|---|
| 1. | Nid yw'n glir p'un a yw'r cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg yn yr ardal | Gan fydd cyflwyno Dosbarth Meithrin i Ysgol Llanbedr yn golygu derbyn oddeutu 6 plentyn ychwanegol yn flynyddol (ar sail ffigyrau hanesyddol) i'r ysgol, nid oes rheswm i amau na fydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | safonau presennol yr ysgol yn parhau yr un fath os nad gwella. Mae'r ddogfen yn nodi bydd y cynnig yn galluogi'r ysgol i asesu disgyblion yn gynharach a chynnig gweithgareddau dysgu wedi'u gwahaniaethu er mwyn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn well.<br><br>Mae'n mynd ymlaen i nodi bydd y cynnig yn rhoi cyfleoedd estynedig i'r staff sydd yn addysgu yn y Cyfnod Sylfaen gynllunio'r cwricwlwm gyda photensial mawr am effeithio'n gadarnhaol ar safonau cyffredinol yr ysgol.<br><br>Bydd disgyblion hefyd yn gallu manteisio ar addysg Gymraeg mewn ysgol o oedran cynharach, yn enwedig y rhai na fynychodd y cylch meithrin, gan fanteisio ar yr amser bydd plant ifanc yn fwyaf parod i gaffael iaith.<br><br>Dylai hyn arwain at gyflawni gwell deilliannau gan ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac, yn ei dro, ar ddiwedd y cyfnod yn yr ysgol gynradd. |
| 2. | Nid yw'n glir sut bydd y buddion arfaethedig canlynol yn gwella'r ddarpariaeth feithrin bresennol sydd ar gael yn lleol:<br><br>• Cynyddu nifer y disgyblion yn yr ysgol.<br>• Gallu cynnig yr un ddarpariaeth â mwyafrif ysgolion cynradd y sir.<br>• Dim angen buddsoddiad cyfalaf.<br>• Mae'r Corff Llywodraethol yn cefnogi'r cynnig.<br>• Mwy o gyfleoedd i blant gael eu trochi mewn profiadau a gweithgareddau yn y Gymraeg. | Mae'r manteision nodiwyd yn y ddogfen ymgynghori yn fanteision ehangach na darpariaeth meithrin yn unig gan gynnwys manteision i'r disgyblion, ysgol a'r Cyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| 3. | Nid yw'r cynnig a'r dogfennau ategol yn ystyried y ddarpariaeth feithrin bresennol sydd ar gael gerllaw'r ysgol wrth arfarnu'r gwelliannau posibl mewn cyfleoedd Cymraeg i ddisgyblion. | Mae'r ddogfen yn nodi bydd disgyblion yn gallu manteisio ar addysg Gymraeg mewn ysgol o oedran cynharach, gan bwysleisio 'yn enwedig y rhai na fynychodd y cylch meithrin'. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gwaith da mae'r cylch meithrin yn ei wneud ac yn rhagweld bydd cyfleoedd i barhau i gydweithio a'r cylch i'r dyfodol. |
| 4. | Nid yw'r cynnig yn cyfeirio at ragamcan o gynnydd yng nghyfran y disgyblion tair oed sy'n cael addysg feithrin pe bai'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnig gan yr ysgol gynradd. | Mae'r rhagolygon 5 mlynedd sydd yn y ddogfen ymgynghori wedi ei selio ar ragamcanion o 6 plentyn yn ymuno a'r Dosbarth Meithrin yn flynyddol o Fedi 2019 ymlaen. |
| 5. | Mae'r cynnig yn nodi'n gywir effaith negyddol bosibl ar Gylch Meithrin Llanbedr. Mae'n nodi'n ddefnyddiol bod cymorth ar gael gan Swyddog Busnes Tîm Cymorth Plant a Theuluoedd Gwynedd i ddadansoddi unrhyw effaith y gallai'r newid arfaethedig ei chael ar y Cylch Meithrin, ac i gynllunio ar gyfer ymateb i unrhyw effaith negyddol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn datgan graddau tebygol yr effaith negyddol hon yn glir, na sut mae'r cyngor a'r ysgol gynradd yn bwriadu gweithio gyda'r Cylch Meithrin er mwyn cynnal safonau'r ddarpariaeth feithrin yn yr ardal. | Mae'n debygol iawn fydd y cylch meithrin yn cael ei effeithio yn dilyn newid ystod oedran yr ysgol a dyna pam fod y Cyngor wedi pwysleisio i'r cylch fod cefnogaeth ar gael drwy'r Swyddog Busnes a Thîm Cymorth Plant a Theuluoedd Gwynedd.<br><br>Un effaith posib fydda effaith ar gyllid y Cylch ac fel sydd wedi ei rannu gyda nhw (a'i nodi yn ymateb i sylwadau yn 4.5 uchod) os fydd sefyllfa debyg i 2017/18 yn bodoli yn dilyn newid ystod oedran Ysgol Llanbedr a bod nifer plant sy'n mynychu'r cylch yn lleihau, dan yr amgylchiadau presennol, ni fyddai'r Cylch yn colli unrhyw gyllid o'r Taliad Addysg Feithrin Cyngor Gwynedd.<br><br>Mi fydd yr ysgol hefyd yn cymryd i ystyriaeth pryd mae'r cylch yn cwrdd er mwyn gallu rhoi'r opsiwn i blant fynychu'r cylch yn ogystal â'r ysgol os dymunai eu rhieni. |
| 6. | Mae'r cynigiwr yn darparu barnau arolygu diweddaraf Estyn (2016) ar gyfer yr ysgol gynradd, sy'n ddefnyddiol, sef digonol ar gyfer perfformiad presennol, rhagolygon gwella, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. | Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r gwaith da mae'r cylch meithrin lleol yn ei gyflawni a safon dda eu gwasanaeth. Y bwriad yw bydd y plant yn gallu elwa o'r gwasanaeth dda yma yn y cylch cyn cychwyn y Dosbarth Meithrin ac, os dymunai eu rhieni, drwy barhau i |

| | | |
|---|---|---|
| | Hefyd, mae'r cynnig yn datgan statws 'melyn' yr ysgol o ran y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn darparu dadansoddiad cryno o berfformiad yr ysgol na'r lleoliad meithrin cysylltiedig. Nid yw'r cynnig yn esbonio sut bydd safonau'r addysg feithrin ar gyfer yr ardal yn cael eu cynnal neu eu gwella. Nid yw'n ystyried yn briodol gryfderau'r Cylch Meithrin a'i farnau arolygu da ar draws pob cwestiwn allweddol (Estyn 2018). | fynychu'r cylch yn ogystal â'r ysgol. Y gobaith felly yw bydd plant yr ardal yn ffynnu drwy gael y gorau o safonau'r addysg feithrin yn y ddau leoliad. |
| 7. | Mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol y risgiau canlynol sy'n gysylltiedig â'r newid arfaethedig:<br>• Nid oes digon o le yn yr ysgol i blant ychwanegol.<br>• Bydd safonau'n gostwng yn dilyn newid.<br>Fodd bynnag, mae'r camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu yn rhy arwynebol ac nid ydynt yn cyfeirio'n ddigonol at y ddarpariaeth feithrin bresennol nac at unrhyw gostau posibl. Nid yw'r trefniadau llety ar gyfer y grŵp meithrin bwriadedig yn glir yn y cynnig. | Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi 'Ar hyn o bryd mae 49 disgybl yn yr ysgol sydd a capasiti o 81. Golygai hyn bydd digon o le ar gyfer unrhyw dwf ym mhoblogaeth yr ysgol o ganlyniad i dderbyn plant i ddosbarth meithrin yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed'.<br><br>Mi fydd camau lliniaru risg y bydd safonau'n disgyn yn dilyn newid yng nghyfrifoldeb ar yr ysgol yn unol â'i cyfrifoldeb i sicrhau addysg o safon arferol. Fel nodwyd yn y ddogfen, mae safonau presennol y Cyfnod Sylfaen yn rhoi hyder fydd hyn ddim yn broblem. |
| 8. | Mae'r cynigiwr yn datgan yn glir nad oes angen buddsoddiad cyfalaf i wireddu'r cynnig hwn, ac mae'n annhebygol y bydd unrhyw arbedion refeniw o'r cynnig. Nid yw'n glir p'un a yw hyn wedi cyfrif am gostau'r ddarpariaeth feithrin bresennol ar gyfer yr ardal. Hefyd, mae'r cynnig yn datgan ei bod hi'n bosibl y bydd angen staff ychwanegol ar yr ysgol gynradd i gynnig y ddarpariaeth feithrin arfaethedig. Ni chyfeirir at unrhyw gostau posibl cysylltiedig. | Mae'n anodd cynllunio ar hyn o bryd beth fydd cost ychwanegol derbyn plant i'r Dosbarth Meithrin ac os fydd angen unrhyw staff ychwanegol i ymdopi ac unrhyw gynnydd tan fydd plant wedi eu cofrestru. Fel sydd wedi ei nodi yn y ddogfen ymgynghori mi fydd angen i'r Corff Llywodraethol flaengynllunio trefn dosbarthiadau a strwythur staffio i ddelio a'r dosbarth meithrin a phlant ychwanegol o fewn y gyllideb. |

**4.7 Ymatebion i'r ymgynghoriad gyda phlant**

Cynhaliodd pennaeth Ysgol Llanbedr sesiwn ymgynghori gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae dadansoddiad y pennaeth o'r sesiynau hyn ar gael yn **atodiad 3** yr adroddiad yma.

Dyma'r prif bwyntiau gododd yn ystod yr ymgynghoriad gyda phlant yr ysgol ac atebion y Cyngor/ysgol iddynt:

| Sylwadau | | Ymateb Cyngor Gwynedd/Ysgol |
|---|---|---|
| 1. | Oes digon o fyrddau? | Oes, mae digon o fyrddau ar gyfer y plant ychwanegol fydd yn mynychu'r Dosbarth Meithrin. |
| 2. | Ydi'r iard digon mawr? | Ydi, mae'r iard digon mawr ar gyfer y plant ychwanegol fydd yn mynychu'r Dosbarth Meithrin. |
| 3. | Ardal tu allan efo ffens i gadw nhw'n saff? | Mae'r wal/ffens digon uchel i sicrhau bydd plant y Dosbarth Meithrin yn ddiogel. |
| 4. | Efallai cychwyn ysgol yr un amser a mynd adref yn gynt? | Mi fydd derbyn plant Dosbarth Meithrin yn y prynhawn yn golygu y byddant yn gorffen yr ysgol yr un amser a gweddill plant yn yr ysgol. Mi fydd hyn hefyd yn rhoi'r cyfle i blant fynd i'r Cylch Meithrin yn y bore os ydi nhw eisiau. |

**4.8** Cynhaliwyd asesiadau effaith ar yr Iaith Gymraeg, Cymuned a Chydraddoldeb fel rhan o'r ymgynghoriad.

Cynhaliwyd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r asesiadau yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol deuir i'r casgliad bod sicrwydd yr hyrwyddir cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa.

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar gynnwys yr asesiadau hyn.

Mae'r Cyngor yn credu y bydd y cynnig yn creu effaith bositif gan fydd plant yn gallu cychwyn yn yr ysgol yn y Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed, yn unol â mwyafrif ysgolion cynradd y sir.

Mae'r asesiadau i'w gweld ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

**4.9** Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd i'r cynnig yn ystod yr ymgynghoriad mae'r Cyngor yn hyderus bydd y cynnig yn gwella addysg yn nalgylch Ysgol Llanbedr.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pryderon ynglŷn â'r cylch meithrin ac wedi cyfeirio'r cylch at gymorth a chyngor sydd ar gael gan Swyddog Busnes a Thîm Cymorth Plant a

Theuluoedd Gwynedd. Mi fydd y Cyngor hefyd yn annog yr ysgol a'r Cylch i barhau i gydweithio er lles y plant lleol.

Gan fod y rhagolygon cynnydd mewn niferoedd yn fach a bod trefniadau cadarn mewn lle yn y Cyfnod Sylfaen ni ragwelir bydd cyflwyno dosbarth meithrin yn yr ysgol yn niweidiol i safonau'r ysgol.

Mi fydd angen i'r Corff Llywodraethol flaengynllunio trefn dosbarthiadau a strwythur staffio ar gyfer cyflwyno dosbarth meithrin a derbyn plant ychwanegol a rhoi camau yn eu lle i sicrhau fod safonau da yr ysgol yn parhau yn dilyn y newid.

Mae'r Cyngor yn hyderus fydd y sylwadau hyn yn cael sylw priodol gan y Corff Llywodraethol.

Ar sail hyn argymhellir felly i gymeradwyo'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11 o Fedi 2019 ymlaen ac i gyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig.

**5. Camau Nesaf**

**5.1** Cyhoeddir y rhybudd statudol gan ganiatáu cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod rhwng 16 Ionawr – 13 Chwefror 2019. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig yn y cyfnod hwn.

**5.2** Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet, neu Aelod Cabinet Addysg, i wneud penderfyniad terfynol ar y cynnig. Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).

**5.3** Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol:

| **Dyddiad** | **Camau** |
|---|---|
| 16 Ionawr 2019 | Cyhoeddi rhybudd statudol |
| 13 Chwefror 2019 | Dyddiad cau ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau i'r cynnig |
| O fewn 16 wythnos o ddyddiad cau y cyfnod gwrthwynebu statudol | Cabinet Cyngor Gwynedd neu Aelod Cabinet Addysg i ystyried unrhyw wrthwynebiadau a gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig |
| | Cyhoeddi'r penderfyniad |
| Medi 2019 | Gweithredu'r cynnig neu barhau â'r drefn bresennol |

6. **Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

Dim

7. **Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

**Prif Swyddog Cyllid**

Fel mae'r awdur wedi nodi yn rhan 4.1 o'r adroddiad, mae bron pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn derbyn plant i ddosbarth meithrin ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Ni fydd gweithredu'r penderfyniad yma'n golygu ymhlygiad ariannol 'net' i'r Cyngor, gan fydd y cynnydd yn y gyllideb i'w ddyrannu i'r ysgolion cynradd (cyfwerth â chost y plant hynny fydd yn mynychu'r ysgol) yn cael ei ariannu trwy gwtogiad cymesur yn y gyllideb sy'n ariannu 'cylchoedd meithrin nas gynhelir'.

**Swyddog Monitro**

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r ystyriaethau a chanlyniad yr ymgynghoriadau mewn modd priodol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb

**Aelod Lleol**

Yn falch bod hyn yn mynd i gymryd lle oherwydd bydd yn hwb mawr i'r ysgol gynradd oherwydd bydd plant wedi dod i arfer yn yr ysgol pan fyddant yn mynd i'r dosbarth derbyn llawn amser. Oherwydd y symudiad hwn bydd hyn yn galluogi i'r ysgol gynradd ar ysgol feithrin ddal i ffynnu yn y pentref.

1

**Ffurflen Ymateb**

Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11
yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

| **Eich Manylion** | **Dyddiad:** 18/9/18. | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Enw** | Helen Jennings | | | |
| **Cyfeiriad** | Cilcychwyn, Llanbedr, Gwynedd. 445 2PC | | | |
| **Cyfeiriad E-bost** | seren15@aol.com. | | | |
| **Rwy'n ymateb fel...** *(Cylchwch yr ymateb perthnasol)* | Rhiant (circled) | Llywodraethwr | Staff | Disgybl |
| | | Arall (nodwch): | | |

**Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol:**

Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn ar y cynnig hwn fel rhan o broses ymgynghori statudol. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Efallai y bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag asiantaethau sy'n ymwneud a'r ymgynghoriad (e.e. Llywodraeth Cymru) ond dim ond at ddiben ymateb i faterion penodol gall eich bod wedi eu nodi yn eich ymateb. Byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau pa bynnag opsiwn a ddewisir. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu rhyddhau, yn llawn neu heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau, mewn adroddiad i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad. Os nad ydych yn dymuno i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb, nodwch isod trwy roi ✓ yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

- [x] Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb <u>yn llawn</u>, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.
- [ ] Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, <u>heb</u> gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.
- [ ] <u>Nid</u> wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb.

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Diogelu Data'r Cyngor ewch i'r adran Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

**Anfonwch eich ymateb at:**
Swyddfa Moderneiddio Addysg,
Adran Addysg, Cyngor Gwynedd,
Caernarfon
LL55 1SH
*neu* Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

**Dyddiad cau: 13:00 ar ddydd Llun, 29 Hydref 2018**

**Nodwch mai <u>sylwadau</u> yw'r ymatebion ac <u>nid</u> <u>gwrthwynebiad</u> i'r cynnig.**

**Bydd cyfle i wrthwynebu'r cynnig os bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi.**

**Sylwadau:** Rydym yn edrych ymlaen i'r newidiadau newid oedran ysgol Llanbedr 3-11

**Ffurflen Ymateb**

Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11
yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

**Sylwadau:**

**Response Form**

Proposal to change the age-range of Ysgol Llanbedr from 4-11 to 3-11
in accordance with section 48 of the School Standards and Organisation Act 2013

| **Your Details** | | Date: | |
|---|---|---|---|
| **Name** | | | |
| **Address** | | | |
| **Email Address** | | | |
| **I'm responding as...** (Please circle the relevant response) | Parent | Governor | Staff | Pupil |
| | Other (please specify): | | |

**In accordance with data protection legislation requirements, we are required to inform you of the following:**

Gwynedd Council is seeking your views on this proposal as part of a statutory consultation process. The details you provide will be used for this purpose only. The information may be shared with agencies involved in the consultation (e.g. the Welsh Government) solely in order to respond to specific matters that you may have raised. We will continue to consider your comments, whichever option is chosen. Your personal details will be kept for 7 years.

With your permission, we may reproduce responses, in full or having taken out personal details such as names and addresses, in a report to the Cabinet on the statutory consultation. If you do not wish the Council to publish your response, please state below by pacing a ✓ in the relevant box, please:

- ☐ I agree that the Council can publish my response in **full** including my personal information.
- ☐ I agree that the Council can publish my response, after **removing** my personal information.
- ☐ No, the Council should **not** publish my response.

For further information about your rights and the Council's Data Protection Officer visit the Privacy section on the Council website.

**Please return your response to:**
Modernising Education Office,
Education Department, Gwynedd Council,
Caernarfon
LL55 1SH
or Modernisingeducation@gwynedd.gov.uk

**Closing Date:** 13:00 on Monday, 29 October 2018

**Please note that these responses are comments and not objections to the proposal.**

**There will be an opportunity to object to the proposal should a statutory notice be published.**

**Comments:** [redacted]

I am very happy to know that we at the Cylch will not loose our funding and I am pleased that parents will be able to have a choice as to whether they send their children to school or to the

**Response Form**
Proposal to change the age-range of Ysgol Llanbedr from 4-11 to 3-11
in accordance with section 48 of the School Standards and Organisation Act 2013

**Comments:**

cylch for those afternoons. The Cylch will put no objections to the proposal.

# Response Form

Proposal to change the age-range of Ysgol Llanbedr from 4-11 to 3-11
in accordance with section 48 of the School Standards and Organisation Act 2013

[redacted]

**In accordance with data protection legislation requirements, we are required to inform you of the following:**

Gwynedd Council is seeking your views on this proposal as part of a statutory consultation process. The details you provide will be used for this purpose only. The information may be shared with agencies involved in the consultation (e.g. the Welsh Government) solely in order to respond to specific matters that you may have raised. We will continue to consider your comments, whichever option is chosen. Your personal details will be kept for 7 years.

With your permission, we may reproduce responses, in full or having taken out personal details such as names and addresses, in a report to the Cabinet on the statutory consultation. If you do not wish the Council to publish your response, please state below by pacing a ✓ in the relevant box, please:

- [x] I agree that the Council can publish my response in <u>full</u> including my personal information.
- [x] I agree that the Council can publish my response, after <u>removing</u> my personal information.
- [ ] No, the Council should <u>not</u> publish my response.

For further information about your rights and the Council's Data Protection Officer visit the Privacy section on the Council website.

**Please return your response to:**
Modernising Education Office,
Education Department, Gwynedd Council,
Caernarfon
LL55 1SH
*or* Modernisingeducation@gwynedd.gov.uk

**Closing Date:** 13:00 on Monday, 29 October 2018

**Please note that these responses are <u>comments</u> and <u>not objections</u> to the proposal.**

**There will be an opportunity to object to the proposal should a statutory notice be published.**

Comments: PTO

**Response Form**

Proposal to change the age-range of Ysgol Llanbedr from 4-11 to 3-11
in accordance with section 48 of the School Standards and Organisation Act 2013

**Comments:**

There are no 'spare' classes in the school for the younger children.
To add them to the already varied age & abilities of Class 1 I feel would be to the detriment of the children in the older years of that group. and stretching teachers even further.
I also feel that this would ~~been~~ effectively close down the Cylch next door, which would be very sad. & to the detriment of the village community.
The cylch's intake is currently from 2½ years old

Perhaps a compromise would be to go back to the old fashioned intake way (or perhaps it was England only I'm not sure) of allowing a January intake aswell as September for the older + brighter kids of the cylch.

# Ffurflen Ymateb

Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11
yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

| **Eich Manylion** | | | Dyddiad: | 19/10/18 |
|---|---|---|---|---|
| **Enw** | [redacted] | | | |
| **Cyfeiriad** | NASUWT Cymru, Cwrt Bowen, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy | | | |
| **Cyfeiriad E-bost** | nasuwt.gwynedd@gmail.com | | | |
| **Rwy'n ymateb fel...** *(Cylchwch yr ymateb perthnasol)* | Rhiant | Llywodraethwr | Staff | Disgybl |
| | | Arall (nodwch): | Ysgrifennydd NASUWT Gwynedd | |

**Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol:**

Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn ar y cynnig hwn fel rhan o broses ymgynghori statudol. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Efallai y bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag asiantaethau sy'n ymwneud a'r ymgynghoriad (e.e. Llywodraeth Cymru) ond dim ond at ddiben ymateb i faterion penodol gall eich bod wedi eu nodi yn eich ymateb. Byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau pa bynnag opsiwn a ddewisir. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu rhyddhau, yn llawn neu heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau, mewn adroddiad i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad. **Os nad ydych yn dymuno i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb**, nodwch isod trwy roi ✓ yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:

- [ ] Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb **yn llawn**, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.
- [x] Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, **heb** gynnwys fy ngwybodaeth bersonol.
- [ ] **Nid** wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb.

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Diogelu Data'r Cyngor ewch i'r adran Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

**Anfonwch eich ymateb at:**
Swyddfa Moderneiddio Addysg,
Adran Addysg, Cyngor Gwynedd,
Caernarfon
LL55 1SH
*neu* Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

**Dyddiad cau:** 13:00 ar ddydd Llun, 29 Hydref 2018

**Nodwch mai sylwadau yw'r ymatebion ac nid gwrthwynebiad i'r cynnig.**

**Bydd cyfle i wrthwynebu'r cynnig os bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi.**

**Sylwadau:**

**Ffurflen Ymateb**

Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11

yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013

**Sylwadau:**

Mae NASUWT Gwynedd yn croesawu y cyfle i ymgynghori ar y bwriad hwn. NASUWT Cymru yw undeb athrawon mwyaf Cymru.

Nid oes gan yr undeb wrthwynebiad i'r bwriad hwn mewn egwyddor. Mae'n amlwg bydd effaith ar y Cylch Meithrin lleol, on gan ei bod ddrws nesaf i'r ysgol bydd modd cydweithio mewn ffordd fydd yn sicrhau bodolaeth y Cylch. Er enghraifft fe all y disgyblion Meithrin fynd draw at y Cylch ar ddiwedd eu 2 awr o ysgol i gael Clwb Cinio yn y Cylch. Os oes rhieni cymwys i dderbyn Gofal 30 Awr yna fe all y Cylch hawlio yr oriau gweddilliol gan gynnig oriau gofal ar ôl y sesiwn ysgol.

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb Estyn i'r cynnig i ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Llanbedr o 4-11 i 3-11**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

**Cyflwyniad**
Mae'r cynnig hwn gan Gyngor Gwynedd ac Ysgol Gynradd Llanbedr.

Y cynnig yw ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Llanbedr o 4-11 i 3-11, o Fedi 2019 ymlaen.

**Crynodeb**
Mae bron pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn derbyn plant yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Ysgol Gynradd Llanbedr yw un o'r ysgolion prin yn y sir nad yw'n derbyn disgyblion tair oed. Ar hyn o bryd, darperir darpariaeth feithrin ar gyfer yr ardal gan Gylch Meithrin Llanbedr, yn y neuadd bentref gerllaw'r ysgol.

Ym marn Estyn, nid yw'n glir p'un a yw'r cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg yn yr ardal.

**Disgrifiad a manteision**
Mae'r cynnig yn cynnwys trosolwg defnyddiol o niferoedd disgyblion, lleoedd dros ben, rhagamcanion o niferoedd disgyblion, categoreiddio cyflwr adeiladu a chost fesul disgybl ar gyfer ysgolion cynradd yr ardal. Hefyd, mae'r cynnig yn cynnwys gwybodaeth fanwl am nifer ac oedrannau'r plant a adawodd addysg feithrin yn y Cylch Meithrin lleol yn 2018.

Mae'r cynigiwr wedi cyflwyno saith budd posibl yn sgil cyflwyno 10 awr yr wythnos o ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol gynradd. Mae tri o'r rhain, sy'n cyfateb i'r un nodwedd allweddol, yn debygol o fod o fudd i blant y gymuned:

- Gall plant ddechrau'r ysgol yn rhan-amser, flwyddyn yn gynt.
- Helpu i baratoi'r plant, fel eu bod yn barod i ymuno â'r dosbarth derbyn.
- Cynnig addysg ddi-dor o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6, gan felly sicrhau dulliau dysgu ac addysgu parhaus a chynllunio'r cwricwlwm yn well.

Fodd bynnag, nid yw'n glir sut bydd y buddion arfaethedig canlynol yn gwella'r ddarpariaeth feithrin bresennol sydd ar gael yn lleol:

- Cynyddu nifer y disgyblion yn yr ysgol.
- Gallu cynnig yr un ddarpariaeth â mwyafrif ysgolion cynradd y sir.
- Dim angen buddsoddiad cyfalaf.
- Mae'r Corff Llywodraethol yn cefnogi'r cynnig.
- Mwy o gyfleoedd i blant gael eu trochi mewn profiadau a gweithgareddau yn y Gymraeg.

Nid yw'r cynnig a'r dogfennau ategol yn ystyried y ddarpariaeth feithrin bresennol sydd ar gael gerllaw'r ysgol wrth arfarnu'r gwelliannau posibl mewn cyfleoedd Cymraeg i ddisgyblion. Yn arolygiad Estyn (2018) o Gylch Meithrin Llanbedr, darganfuwyd fod y ddarpariaeth a'r defnydd ar y Gymraeg gan ymarferwyr yn y Cylch Meithrin yn rhagorol.

Hefyd, mae'r cynigiwr yn datgan y bydd disgyblion yn gallu manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol yn iau, yn enwedig y rhai sydd heb fynychu'r Cylch Meithrin. Nid yw'r cynnig yn cyfeirio at ragamcan o gynnydd yng nghyfran y disgyblion tair oed sy'n cael addysg feithrin pe bai'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnig gan yr ysgol gynradd.

Mae'r cynnig yn nodi'n gywir effaith negyddol bosibl ar Gylch Meithrin Llanbedr. Mae'n nodi'n ddefnyddiol bod cymorth ar gael gan Swyddog Busnes Tîm Cymorth Plant a Theuluoedd Gwynedd i ddadansoddi unrhyw effaith y gallai'r newid arfaethedig ei chael ar y Cylch Meithrin, ac i gynllunio ar gyfer ymateb i unrhyw effaith negyddol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn datgan graddau tebygol yr effaith negyddol hon yn glir, na sut mae'r cyngor a'r ysgol gynradd yn bwriadu gweithio gyda'r Cylch Meithrin er mwyn cynnal safonau'r ddarpariaeth feithrin yn yr ardal.

Mae'r cynigiwr yn darparu barnau arolygu diweddaraf Estyn (2016) ar gyfer yr ysgol gynradd, sy'n ddefnyddiol, sef digonol ar gyfer perfformiad presennol, rhagolygon gwella, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Hefyd, mae'r cynnig yn datgan statws 'melyn' yr ysgol o ran y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn darparu dadansoddiad cryno o berfformiad yr ysgol na'r lleoliad meithrin cysylltiedig. Nid yw'r cynnig yn esbonio sut bydd safonau'r addysg feithrin ar gyfer yr ardal yn cael eu cynnal neu eu gwella. Nid yw'n ystyried yn briodol gryfderau'r Cylch Meithrin a'i farnau arolygu da ar draws pob cwestiwn allweddol (Estyn 2018).

Mae'r cynigiwr yn nodi'n briodol y risgiau canlynol sy'n gysylltiedig â'r newid arfaethedig:

- Nid oes digon o le yn yr ysgol i blant ychwanegol.
- Bydd safonau'n gostwng yn dilyn newid.

Fodd bynnag, mae'r camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu yn rhy arwynebol ac nid ydynt yn cyfeirio'n ddigonol at y ddarpariaeth feithrin bresennol nac at unrhyw gostau posibl. Nid yw'r trefniadau llety ar gyfer y grŵp meithrin bwriadedig yn glir yn y cynnig.

Mae'r cynigiwr yn datgan yn glir nad oes angen buddsoddiad cyfalaf i wireddu'r cynnig hwn, ac mae'n annhebygol y bydd unrhyw arbedion refeniw o'r cynnig. Fodd bynnag, nid yw'n glir p'un a yw hyn wedi cyfrif am gostau'r ddarpariaeth feithrin bresennol ar gyfer yr ardal. Hefyd, mae'r cynnig yn datgan ei bod hi'n bosibl y bydd angen staff ychwanegol ar yr ysgol gynradd i gynnig y ddarpariaeth feithrin arfaethedig. Ni chyfeirir at unrhyw gostau posibl cysylltiedig.

Mae'r cynigiwr wedi ymgymryd ag asesiad priodol o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n ystyried effaith y cynnig ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys y rhai ag anabledd neu anghenion addysgol arbennig. Mae'n debygol bod y cynigiwr yn gywir wrth asesu mai prin fydd yr effaith ar drafnidiaeth ac ar y gymuned. Mae'r cynnig yn cynnwys trefniadau addas ar gyfer ymgynghori.

# Cynnig i newid ystod oedran Ysgol Llanbedr i 3-11

## Dogfen Ymgynghori

**Fersiwn plant cynradd**

**Medi 2018**

# CYFLWYNIAD

Mae Corff Llywodraethol Ysgol Llanbedr wedi gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried newid oedran plant sy'n gallu mynd i'r ysgol o 4-11 i 3-11.

Cyn gwneud y penderfyniad, mae rhaid i Gyngor Gwynedd roi gwybod i disgyblion yr ysgol am y cynnig a rhoi cyfle iddynt gynnig sylwadau ar y syniad.

## Beth mae'r newid yma yn ei olygu?

- Bydd plant yn gallu cychwyn yr ysgol yn 3 oed
- Bydd dosbarth newydd yn yr ysgol, sef dosbarth meithrin
- Mi fydd yna ychydig mwy o blant yn yr ysgol

**Beth wyt ti yn meddwl o'r syniad?**

Cyn i Gyngor Gwynedd benderfynu os ydynt am newid yr oedran, rydym eisiau clywed dy farn di am y syniad.

**Sut mae gwneud hyn?**

Mae croeso i unrhyw ddisgybl anfon sylwadau i roi eu barn.

Er mwyn gwneud hyn gellir cwblhau yr holiadur isod.

Mae angen i'r Cyngor dderbyn sylwadau erbyn 29 Hydref 2018.

# Holiadur

Mae Cyngor Gwynedd ac Ysgol Llanbedr yn meddwl newid oedran plant fydd yn gallu mynd i'ch ysgol.

Mi fydd hyn yn golygu cael dosbarth meithrin fel bod plant yn gallu cychwyn yr ysgol yn 3 oed.

- **Sut wyt ti'n teimlo am hyn?** (Ticia <u>un</u> dewis)



- **Oes yna unrhyw beth yn dy boeni am hyn?**

Oes digon o fyrddau?

Ydi iard ddigon mawr?

Ardal tu allan efo ffens i gadw nhw'n saff?

- **Oes yna unrhyw beth arall wyt ti eisiau ei ddweud am y syniad?**

Syniad da achos mae plant yn dod i arfer efo ni yn yr ysgol.

Ella cychwyn ysgol yr un amser a mynd adref yn gynt?

Cyfle da i'r plant bach i gael dysgu'n gyflymach a dysgu Cymraeg.

Ella buasai plant derbyn a meithrin yn cael bod efo'i gilydd.

Mi fedri di ddefnyddio tudalen ychwanegol os wyt ti eisiau ysgrifennu mwy.

Diolch yn fawr am roi amser i lenwi'r holiadur yma.

**Angen mwy o wybodaeth?**

- Am fwy o wybodaeth ewch ar safle wê'r Cyngor
  www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

- Gallwch gysylltu â'r Cyngor drwy e-bostio:
  Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

- Gallwch anfon llythyr/sylwadau/holiadur drwy'r post at:
  Swyddfa Moderneiddio Addysg,
  Cyngor Gwynedd
  Caernarfon
  Gwynedd
  LL55 1SH